THE CROWN ESTATE



# Pecyn Gwybodaeth i Ymgeiswyr Comisiynydd y Bwrdd





Regulated by
The Commissioner for Public Appointments

# Croeso



**Ric Lewis**
Cadeirydd Ystad y Goron

## Diolch am eich diddordeb yn swydd Comisiynydd Bwrdd Ystad y Goron.

Ein rôl yw rhoi buddiannau'r genedl yn gyntaf, gan ategu ein dyletswydd graidd i dyfu gwerth hirdymor ein portffolio a'r incwm a ddychwelwn i'r Trysorlys. Dros y 10 mlynedd diwethaf rydym wedi cynhyrchu £5 biliwn i'w wario ar wasanaethau cyhoeddus.

Rydym yn fusnes unigryw, a sefydlwyd gan Ddeddf Seneddol, sy'n gweithredu'n annibynnol ac yn fasnachol, rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat.

O ddinasoedd i dirweddau gwledig, cymunedau arfordirol i wely'r môr, mae ein gwaith, yr ydym yn ei fynegi trwy ein diben: creu ffyniant parhaol a rennir ar gyfer y genedl, yn cwmpasu'r DU.

Mae 2025 yn nodi carreg filltir hanesyddol gyda phasio Deddf Ystad y Goron 2025, sy'n rhoi pwerau benthyca a buddsoddi newydd inni am y tro cyntaf. Mae hyn yn datgloi mwy o hyblygrwydd i ni fuddsoddi mewn meysydd sy'n hanfodol i lwyddiant y DU – megis gwyddoniaeth ac arloesedd, tai, amaethyddiaeth adfywiol, ac ynni adnewyddadwy.

Mae'r Ddeddf newydd hefyd yn cynyddu'r nifer uchaf o gomisiynwyr ar Fwrdd Ystad y Goron o wyth i ddeuddeg, sy'n cyd-fynd â safonau llywodraethu corfforaethol modern ac yn cryfhau amrywiaeth y wybodaeth a'r profiad ar y Bwrdd. Mae'n cynnwys darpariaeth i benodi Comisiynydd a fydd, ochr yn ochr â'i gyfrifoldebau ehangach, yn cefnogi dealltwriaeth barhaus y Bwrdd o fuddiannau a materion Cymru, gan sicrhau bod penderfyniadau i gyflawni strategaeth Ystad y Goron yn parhau i ystyried amodau unigryw Cymru. Mae'r Ddeddf hefyd yn cynnwys darpariaeth i benodi Comisiynwyr sy'n cynghori'r Bwrdd ar faterion sy'n ymwneud â Lloegr a Gogledd Iwerddon. Gwneir y penodiadau hynny yn ogystal â recriwtio ar gyfer y swydd hon.

Fel panel recriwtio, rydym yn croesawu ceisiadau gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i helpu i sicrhau bod Ystad y Goron yn adlewyrchu'r gymdeithas y mae'n ei gwasanaethu, yn cofleidio syniadau amrywiol, ac yn gwerthfawrogi gwahanol safbwyntiau.

Os oes gennych y sgiliau a'r profiad yr ydym yn chwilio amdanynt, ac yn awyddus i helpu Bwrdd Ystad y Goron a Thîm Arweinyddiaeth y Grŵp i lunio dyfodol Ystad y Goron, edrychaf ymlaen at dderbyn eich cais a dymunaf bob llwyddiant i chi.

Gallwch ddarllen mwy am sut rydym yn creu ffyniant parhaol a rennir ar gyfer y genedl yn ein Hadroddiad a Chyfrifon Blynyddol ar-lein yn: **Adroddiad Blynyddol 2024/25 (Saesneg) | Ystad y Goron**

## Cynnwys


1 Gwybodaeth am Ystad y Goron
6 Manyleb ymgeiswyr
8 Rôl y Bwrdd
9 Y broses ddethol a sut i ymgeisio

# Gwybodaeth am Ystad y Goron

Rydym yn rheoli tir, eiddo a gwely'r môr o amgylch Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, gan ddychwelyd ein helw i Drysorlys EF i gefnogi gwariant cyhoeddus.

Fel busnes annibynnol sydd â £15 biliwn o asedau net gan gynnwys prosiectau ynni adnewyddadwy, cynlluniau adfywio trawsnewidiol â gwerth datblygu gros o hyd at £44 biliwn ac un o ddaliadau tir gwledig mwyaf y wlad, ein nod yw creu effaith ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Mae ein gweithgareddau'n helpu i ddarparu ynni glân a diogeledd ynni, amddiffyn ac adfer natur, a chefnogi cymunedau a thwf economaidd wrth greu gwerth ariannol i'r DU.

Rydym yn gweithredu mewn tri maes busnes, Morol, Trefol a Windsor a Gwledig lle rydym yn canolbwyntio ar fuddsoddi a datblygu ar gyfer y tymor hir, rheoli asedau gweithredol, gweithio gyda'n cwsmeriaid, harneisio a rhannu data ac adeiladu partneriaethau.

Rydym yn creu gwerth cymdeithasol, amgylcheddol ac ariannol hirdymor trwy dynnu ar ein cryfderau allweddol: ein perchnogaeth eang ar bortffolio amrywiol o asedau cenedlaethol, ein hannibyniaeth, ein cyfle i gymryd golwg hirdymor a'n gallu i ddod â rhanddeiliaid ynghyd i fynd i'r afael â heriau.

## Ein tri maes busnes



### Morol

Rydym yn rheoli gwely'r môr a'r arfordir o amgylch Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon i gefnogi'r newid cenedlaethol i ddyfodol gwydn a chynaliadwy.

**12GW**
capasiti presennol ynni gwynt ar y môr

**50GW**
piblinell ynni gwynt ar y môr bosibl



### Trefol

Mae ein hasedau eiddo tiriog yn amrywio o West End Llundain i gyrchfannau manwerthu a hamdden rhanbarthol a chyfleoedd datblygu cymysg eu defnydd.

**17 miliwn troedfedd sgwâr**
o ofod defnydd cymysg

**9 miliwn troedfedd sgwâr**
o biblinell ddatblygu



### Windsor a Gwledig

Rydym yn stiwardiaid ar dros 200,000 erw o dir gwledig, gan gynnwys tir fferm dan denantiaeth, ucheldiroedd, asedau arfordirol ac Ystad Windsor a Great Park.

**200,000 erw**
o dir gwledig

**15%**
i'w roi i adfer natur lle bo'n briodol

# Strategaeth

Wedi'n harwain gan ein diben a thrwy ein strategaeth eang uchelgeisiol, rydym yn cyflawni ar draws pob rhan o'n busnes i fynd i'r afael ag anghenion cenedlaethol lle gallwn gael yr effaith fwyaf.

Mae pedwar maes ffocws i'n strategaeth, pob un wedi'i gysylltu'n agos a bydd llawer o'n gweithgareddau'n creu gwerth yn eu herbyn i gyd.




## Ein gwerthoedd

**Ein gwerthoedd yw'r egwyddorion arweiniol sy'n diffinio ein diwylliant**

### Gofalgar
Rydym wedi ymrwymo i ofalu am y byd o'n cwmpas ac am ein gilydd. Rydym yn trin pobl, lleoedd a'r amgylchedd gyda'r gofal a'r parch sydd eu hangen arnynt i ffynnu.

### Gyda'n gilydd
Rydym yn gweithio gyda'n gilydd a gydag eraill i gyflawni ein diben. Er mwyn meithrin ymddiriedaeth, rydym yn canolbwyntio ar ddeall anghenion gwirioneddol y rhai o'n cwmpas.

### Creadigol
Rydym yn credu bod creadigrwydd yn ein galluogi i ddatgloi syniadau newydd a datrys problemau. Er mwyn bod yn gatalydd gwirioneddol ar gyfer newid, rydym yn cofleidio ffyrdd gwreiddiol o feddwl a'r syniadau gorau.

### Effeithiol
Rydym yn credu bod yn rhaid i effaith gadarnhaol a pherfformiad ariannol fynd law yn llaw. Rydym yn gofyn i ni'n hunain sut mae ein gweithredoedd yn cyd-fynd â'n diben ac yn gwneud gwahaniaeth ystyrlon.

# Cymru

Rydym yn rheoli portffolio amrywiol o asedau yng Nghymru, gan gynnwys dros 50,000 erw o dir comin ucheldirol, a thua 65% o'r blaenau traethau a gwely'r afonydd llanw.

Rydym hefyd yn prydlesu lle ar wely'r môr ar gyfer piblinellau olew a nwy, agregau morol a cheblau a rhyng-gysylltwyr tanddwr.

TMae strategaeth Ystad y Goron yn adlewyrchu uchelgeisiau tebyg a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) i wella'r cyfleoedd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol i gymunedau ledled Cymru ac rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid ehangach i chwarae ein rhan. Yn haf 2024, gwnaethom agor Hwb Caerdydd i gynyddu ein presenoldeb yn yr ecosystem leol a chasglu ein partneriaid ynghyd.

## Carbon sero net a diogeledd ynni

Mae hyrwyddo darpariaeth ynni adnewyddadwy yn ffocws sylweddol i Ystad y Goron gan sicrhau, trwy ein gweithgareddau, ein bod yn galluogi budd economaidd ac yn gwella'r amgylchedd ar gyfer yr economi a chymunedau lleol.

Ymysg y mentrau allweddol sydd ar waith mae:

- Rownd 5 Prydlesu Ynni Gwynt ar y Môr, a fydd yn gweld cenhedlaeth newydd o ffermydd gwynt arnofiol yn y Môr Celtaidd, fydd â digon o gapasiti i bweru mwy na 4 miliwn o gartrefi a'r potensial i greu 5,300 o swyddi newydd trwy gydol y cyfnod adeiladu. Gallai hyn fod yn drawsnewidiol ar gyfer twf economaidd mewn cymunedau lleol, yn ogystal â chryfhau diogeledd ynni'r DU a gyrru adfywio diwydiannol.
- Cronfa Cyflymydd Cadwyni Cyflenwi gwerth £50 miliwn a lansiwyd ym mis Mehefin 2024, i gefnogi datblygiad cadwyni cyflenwi'r DU ar gyfer ynni gwynt ar y môr – dyfarnodd y rownd gyntaf gyllid i bedwar prosiect yng Nghymru.
- Buddsoddiad o £2.6 miliwn ym mhrosiect arddangos llif llanw Morlais. Morlais yw'r safle profi mwyaf sydd wedi cael caniatâd ar gyfer technolegau llanw lluosog yn Ewrop, mae hefyd wedi'i gysylltu â'r grid sy'n cadarnhau ei rôl hanfodol yn natblygiad y sector llif llanw.

## Adferiad natur a bioamrywiaeth

Fel stiwardiaid amgylcheddau gwledig, arfordirol a morol mae cyfrifoldeb arnom i gefnogi bioamrywiaeth, adfer ecosystemau, a gwella'r byd naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Ym mis Ionawr 2025, rhannodd Ystad y Goron ei Huchelgais Natur, ac ochr yn ochr â hyn, gwnaethom adnewyddu ein dyletswyddau o dan Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae ein **Huchelgais Natur** a'n hadroddiad adran 6 yn benllanw misoedd o ymgynghori â'r rhai sy'n adnabod y tiroedd comin a'r arfordir orau a lywiodd ein tri nod natur craidd:

- Cyflawni mwy o fioamrywiaeth
- Diogelu ac adfer systemau dŵr croyw, morol ac arfordirol
- Cynyddu manteision cymdeithasol a lles o natur

Wrth i ni geisio creu effaith gadarnhaol, rydym yn parhau i gydweithio a gweithio mewn partneriaeth â'r llywodraeth, busnesau, sefydliadau cadwraeth a chymunedau lleol.

## Cymorth i Forwellt

Mae dolydd morwellt yn gynefin hanfodol i forfeirch a physgod, ac maent hefyd yn hidlo dŵr ac yn dal llawer iawn o garbon. O ystyried ein blaenoriaethau i gefnogi datgarboneiddio, adfer natur ac ansawdd dŵr, mae Ystad y Goron yn ceisio helpu adfer morwellt o amgylch Cymru. Rydym wedi ail-drwyddedu treial adfer morwellt cyntaf y DU, Prosiect Morwellt yn Dale, Sir Benfro – gan gynyddu ei gwmpas o ddau i dri hectar.

Gyda chyllid gan WWF a Sky Ocean Rescue, mae'r prosiect yn cynnwys profi gwahanol ddulliau o blannu, o blannu morwellt mewn bagiau hesian i ddefnyddio robotiaid tanddwr, a monitro'r canlyniadau dros amser. Cymerodd gwirfoddolwyr o dîm Ystad y Goron ran mewn sesiwn blannu ac edrychwn ymlaen at weld Prosiect Morwellt yn ehangu ei gwmpas ac yn rhannu ei ddysg.



# **Cymru** parhad

### Cymunedau cynhwysol a thwf economaidd

Ein nod yw sicrhau bod ein buddsoddiadau a'n partneriaethau mewn sectorau allweddol fel ynni adnewyddadwy a gwyddoniaeth, technoleg ac arloesedd yn darparu manteision gwirioneddol i bobl a lleoedd.

Mae strategaeth Llywodraeth Cymru yn egluro y bydd datblygu sylfaen sgiliau gref yn hanfodol nid yn unig i gyflawni'r trawsnewid gwyrdd, ond i greu cyfleoedd a fydd yn cael effaith drawsnewidiol ar genedlaethau'r dyfodol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi cydweithio mewn prosiectau sydd wedi ymgysylltu â phobl iau yng Nghymru, er enghraifft dod â Minecraft Education i ysgolion (gweler gyferbyn) a chreu partneriaeth â'r Gwasanaeth Sea Ranger trwy'r contract monitro morol a ddarparwyd ganddynt yn y Môr Celtaidd.

Yn ogystal â'n rhaglenni prentisiaeth ac interniaeth ein hunain, ac estyniad llwyddiannus y Rhaglen Interniaeth Forol i ogledd Cymru, mae'r cynigwyr dewisol ar gyfer y ffermydd gwynt arnofiol newydd wedi ymrwymo i sicrhau bod o leiaf 3.5% o'r gweithlu yn cynnwys prentisiaethau a bod o leiaf 10% o'r gweithwyr 19-24 oed heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ar hyn o bryd.

Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn parhau i gynyddu ein hymdrechion i gael yr effaith gymdeithasol fwyaf bosibl ledled Cymru.

## Dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg gyda Minecraft

Mae ysbrydoli pobl ifanc i gymryd diddordeb mewn cynaliadwyedd ac ystyried gyrfaoedd mewn meysydd fel ynni glân a chadwraeth yn hanfodol i gyflawni'r trawsnewid gwyrdd ac i dwf economaidd Cymru yn y dyfodol. Er mwyn eu helpu i dyfu eu gwybodaeth a'u sgiliau, gwnaethom ddefnyddio pŵer Minecraft, y gêm fideo sy'n gwerthu orau erioed.

Trwy ein partneriaeth â Microsoft UK, gwnaethom greu Her Ynni Gwynt ar y Môr, byd Minecraft Education. Ar gael yn Saesneg a Chymraeg, mae'r her yn gwahodd myfyrwyr 7-14 oed i weld a allant bweru pentref arfordirol trwy ddylunio ac adeiladu fferm wynt ar y môr.

Yna gwnaethom greu cynlluniau gwersi a deunyddiau addysgu sy'n cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru. Mae'r rhain ar gael ar blatfform dysgu Hwb Llywodraeth Cymru, ac rydym wedi cysylltu ag Aelodau o'r Senedd ac Aelodau Seneddol lleol a Gweinidogion Cymru i gynnig cyfraniadau pellach at y Cwricwlwm newydd i Gymru. I ddysgu mwy am y prosiect, gallwch wylio fideo yn **thecrownestate.co.uk/minecraft**



Gallwch ddarllen mwy o fanylion am yr holl bethau uchod a'n gweithgareddau yng Nghymru yn ein Hadolygiad Cymru ar-lein yn:
**Adolygiad Cymru 2024/25**

# Sut rydym yn rheoli'r busnes

Mae Bwrdd Ystad y Goron yn darparu goruchwyliaeth strategol o'r busnes, gyda rheolaeth wedi'i dirprwyo i'r Prif Weithredwr a thîm Arweinyddiaeth y Grŵp.

Mae tîm Arweinyddiaeth y Grŵp (TAG) yn rhoi cymorth i'r Prif Weithredwr i gyflawni pob agwedd ar yr hyn mae Ystad y Goron yn ei wneud ac yn ceisio'i wneud. Mae gan y TAG 11 aelod: y Prif Weithredwr, y Prif Swyddog Ariannol, y Prif Swyddog Cynaliadwyedd, y Rheolwr Gyfarwyddwr Datblygu, y Rheolwr Gyfarwyddwr Morol, y Rheolwr Gyfarwyddwr Eiddo Tiriog, Rheolwr Gyfarwyddwr Windsor a Gwledig, y Prif Swyddog Digidol, y Cyfarwyddwr Gweithredol Materion Corfforaethol, y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau, a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Diwylliant.

Mae pasio Deddf Ystad y Goron 2025 yn caniatáu i Ystad y Goron fenthyca a buddsoddi'n fwy hyblyg. Rydym yn cynyddu buddsoddiad mewn meysydd allweddol fel gwyddoniaeth ac arloesedd, tai, amaethyddiaeth adfywiol ac ynni adnewyddadwy a fydd yn ein galluogi i gyflawni ein strategaeth uchelgeisiol, a chael effaith hyd yn oed yn fwy ar y genedl yn y tymor hir.

Ar hyn o bryd (a hyd nes y cytunir fel arall i adlewyrchu amodau'r farchnad sydd wedi newid), mae Ystad y Goron yn mesur ei pherfformiad yn ôl:

- y targedau refeniw y cytunwyd arnynt gyda'r Bwrdd ac a drafodwyd gyda'r Trysorlys
- meincnod enillion cyfanswm marchnad eiddo tiriog priodol a cherrig milltir pwrpasol ar gyfer ei uned fusnes Forol
- targedau cynaliadwyedd sy'n cael eu diweddaru o bryd i'w gilydd yn ôl yr angen.

Mae gwybodaeth fanylach am Ystad y Goron, ein strategaeth, sut rydym yn creu gwerth a'n gweithgareddau, gan gynnwys canlyniadau ariannol ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2025 ar gael ar-lein yn:
**Adroddiad Blynyddol 2024/25 (Saesneg) | Ystad y Goro**

## Y Bwrdd

Mae cyfansoddiad Ystad y Goron a chyfansoddiad y Bwrdd yn cael eu llywodraethu gan statud – Deddf Ystad y Goron 1961, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Ystad y Goron 2025. Yn dilyn y gwelliant, mae uchafswm nifer y Comisiynwyr ar Fwrdd Ystad y Goron wedi cynyddu o wyth i ddeuddeg gan gynnwys y Cadeirydd, ac un Comisiynydd Gweithredol (y Prif Weithredwr). Mae Cynghorwyr y Bwrdd yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd mewn swyddogaeth gynghorol.

### Aelodau'r Bwrdd Gweithredol

**Dan Labbad**

Prif Weithredwr, Swyddog Cyfrifyddu, Aelod o'r Bwrdd Gweithredol a 'r Ail Gomisiynydd.

Penodwyd Dan yn Brif Weithredwr ar 9 Rhagfyr 2019 ac i'r Bwrdd ar 1 Ionawr 2020. Ailbenodwyd Dan am bedair blynedd arall yn 2023.

**Helen Price**

Prif Swyddog Ariannol, ac Aelod o'r Bwrdd Gweithredol. Penodwyd Helen yn Brif Swyddog Ariannol ar 1 Ionawr 2025. Daw ei thymor cyntaf i ben ar 31 Rhagfyr 2028.

### Aelodau Anweithredol o'r Bwrdd

**Ric Lewis**

Cadeirydd, Aelod Anweithredol Annibynnol o'r Bwrdd a'r Comisiynydd Cyntaf.

Penodwyd Ric i swydd Cadeirydd Ystad y Goron ar 9 Gorffennaf 2025. Daw ei dymor cyntaf i ben ar 8 Gorffennaf 2029.

**Vijay Bharadia**

Aelod Anweithredol Annibynnol o'r Bwrdd.

Penodwyd Vijay i'r Bwrdd ar 1 Ebrill 2023. Daw ei dymor cyntaf i ben ar 31 Mawrth 2027.

**Juliet Davenport OBE**

Aelod Anweithredol Annibynnol o'r Bwrdd.

Penodwyd Juliet i'r Bwrdd ar 1 Medi 2020. Cafodd ei hailbenodi am bedair blynedd arall ar 1 Medi 2024.

**Peter Hofbauer**

Aelod Anweithredol Annibynnol o'r Bwrdd

Penodwyd Peter i'r Bwrdd ar 1 Medi 2025. Daw ei dymor cyntaf i ben ar 31 Awst 2029. Cyn hyn, gwasanaethodd Peter am flwyddyn fel Cynghorydd Bwrdd i Ystad y Goron o 1 Medi 2024.

**Y Fonesig Karen Jones DBE**

Aelod Anweithredol Annibynnol o'r Bwrdd ac Uwch Aelod Annibynnol o'r Bwrdd.

Penodwyd Karen i'r Bwrdd ar 1 Ionawr 2020 ac fel Uwch Aelod Annibynnol o'r Bwrdd ar 9 Mehefin 2020. Cafodd ei hailbenodi am bedair blynedd arall ar 1 Ionawr 2024.

**Anne Kavanagh**

Aelod Anweithredol Annibynnol o'r Bwrdd.

Penodwyd Anne i'r Bwrdd ar 4 Gorffennaf 2022. Daw ei thymor cyntaf i ben ar 3 Gorffennaf 2026.

**Clare Shine**

Aelod Anweithredol Annibynnol o'r Bwrdd.

Penodwyd Clare i'r Bwrdd ar 4 Gorffennaf 2022. Daw ei thymor cyntaf i ben ar 3 Gorffennaf 2026.

### Cynghorwyr y Bwrdd*

**Nicholas Cheffings**

Cynghorydd y Bwrdd.

Penodwyd Nicholas yn Gynghorydd y Bwrdd ar 1 Medi 2025. Daw ei dymor cyntaf i ben ar 31 Awst 2029.

Gallwch ddarllen gwybodaeth fywgraffyddol am ein Bwrdd, gan gynnwys sgiliau a phrofiad, ar-lein yn:
**Ein Bwrdd (Saesneg) | Ystad y Goron**

* Cynorthwyir y Bwrdd gan aelodau cyfetholedig a elwir yn Gynghorwyr y Bwrdd, sydd (yn ôl disgresiwn y Cadeirydd) yn mynychu Cyfarfodydd y Bwrdd heb bleidleisio.

# Manyleb ymgeiswyr

Mae hon yn rôl arweinyddiaeth anweithredol arwyddocaol o fewn sefydliad unigryw a phwysig yn genedlaethol, sy'n gweithio e budd cyhoeddus hirdymor.

Penodir Comisiynwyr o dan Warant Frenhinol ac maent yn gwasanaethu ar Fwrdd Ystad y Goron, gan ddarparu goruchwyliaeth strategol a chyfrannu at gyflawni ei diben: creu ffyniant parhaol a rennir i'r genedl.

Bydd angen i'r unigolyn chwarae rhan lawn yn holl gyfrifoldebau'r Bwrdd. Yn ogystal, bydda yn rhoi cyngor i'r Bwrdd ynghylch amodau yng Nghymru cyn belled ag y maent yn ymwneud â swyddogaethau Ystad y Goron yng Nghymru. Wrth gyflawni'r olaf, bydd yn gallu tynnu ar fewnwelediadau o weithgareddau ymgysylltu Ystad y Goron a rhoi cipolwg ar bolisïau presennol a pholisïau sy'n dod i'r amlwg sy'n berthnasol i weithgareddau Ystad y Goron yng Nghymru.

## Profiad a Sgiliau:

### Hanfodol

- Tystiolaeth o gymhwyso arweinyddiaeth strategol a meddwl trwy systemau i lywio a chyflymu'r broses o gyflawni gwerth cymdeithasol, masnachol ac ariannol ar raddfa a chyflymder
- Y gallu i gysylltu a hyrwyddo diben a gwerthoedd Ystad y Goron; gweld y darlun ehangach a deall sut mae camau gweithredu lleol yn ffitio i nodau a pholisïau ehangach
- Craffter masnachol a busnes gyda phersbectif ariannol cysylltiedig a fydd yn gwneud cyfraniad gwirioneddol at fusnes y Bwrdd ar draws ystod o feysydd strategol a gweithredol
- Sgiliau rheoli rhanddeiliaid rhyngbersonol a strategol rhagorol ynghyd â'r gallu i weithio'n effeithiol fel rhan o dîm talentog ac uchel ei berfformiad
- Dealltwriaeth o'r cyd-destun gwleidyddol, economaidd a diwylliannol yng Nghymru, a'r gallu i gymhwyso hynny i lywio penderfyniadau strategol a gweithredol Ystad y Goron

### Dymunol

- Profiad o weithredu mewn sefydliadau mawr, cymhleth, yn enwedig y rhai sy'n cael eu trawsnewid a/neu'n gweithredu mewn amgylcheddau rheoleiddiedig, yn enwedig lle mae sefydliadau o'r fath yn rhannu dynameg allweddol, meysydd gweithredu neu werthoedd gydag Ystad y Goron
- Ehangder profiad ar draws amrywiaeth o fathau o sefydliadau. Gallai hyn gynnwys:
  - Cwmnïau cyhoeddus neu breifat arwyddocaol mewn sectorau sy'n gymaradwy â gweithgareddau Ystad y Goron neu'n eu hategu
  - Sefydliadau sector cyhoeddus neu sefydliadau di-elw sydd â ffocws ar greu gwerth hirdymor
- Gwybodaeth sectoraidd mewn un neu fwy o'r meysydd canlynol:
  - Gwledig, tir neu amaethyddiaeth
  - Technolegau digidol a thechnolegau sy'n dod i'r amlwg
  - Diwydiannau morol ac arfordirol
  - Mentrau datblygu cynaliadwy ac ynni glân

## Telerau'r Penodiad

- Tymor: pedair blynedd, gyda'r posibilrwydd o ailbenodiad am ail dymor
- Ymrwymiad amser: tua 30 diwrnod y flwyddyn
- Tâl: £30,000 y flwyddyn
- Penodiad: trwy Warant Frenhinol

Bydd y proffil hwn yn cael ei adolygu o ganlyniad i unrhyw newidiadau sy'n deillio o unrhyw newidiadau i'r Cod Llywodraethu Corfforaethol cyhoeddedig yn y DU neu'r Canllawiau a gyhoeddir gan Drysorlys EF.

## Egwyddorion bywyd cyhoeddus

**Mae'n ofynnol i aelodau Anweithredol y Bwrdd gynnal saith egwyddor bywyd cyhoeddus:**

**Anhunanoldeb:**
Gweithredu er budd y cyhoedd yn unig, nid i ennill buddion ariannol na buddion eraill iddyn nhw eu hunain, eu teulu na'u ffrindiau.

**Uniondeb:**
Peidio â rhoi eu hunain o dan unrhyw rwymedigaeth ariannol na rhwymedigaeth arall i unigolion neu sefydliadau allanol a allai geisio dylanwadu arnynt wrth gyflawni eu dyletswyddau fel aelod Anweithredol o Fwrdd Ystad y Goron.

**Gwrthrychedd:**
Wrth gynnal busnes, gan gynnwys gwneud penodiadau cyhoeddus, dyfarnu contractau neu argymell unigolion ar gyfer gwobrau a buddion, dylai aelodau Anweithredol y Bwrdd wneud dewisiadau ar sail teilyngdod.

**Atebolrwydd:**
Bod yn atebol am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd i'r cyhoedd a rhaid iddynt gyflwyno eu hunain i ba bynnag graffu sy'n briodol i'w penodiad.

**Diffuantrwydd:**
Dylent fod mor agored â phosibl ynghylch yr holl benderfyniadau a chamau a gymerant. Dylent roi rhesymau dros eu penderfyniadau a chyfyngu gwybodaeth dim ond pan fydd budd ehangach y cyhoedd yn mynnu hynny.

**Gonestrwydd:**
Dyletswydd i ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy'n ymwneud â'u dyletswyddau fel aelod Anweithredol o'r Bwrdd a chymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro..

**Arweinyddiaeth:**
Hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion hyn drwy arweinyddiaeth ac esiampl.

# Rôl y Bwrdd

Mae pŵer a dyletswyddau'r Bwrdd, a ragnodir yn Neddf Ystad y Goron 1961, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Ystad y Goron 2025 (gyda'i gilydd "y Ddeddf"), yn nodi mai cyfrifoldeb cyffredinol y Bwrdd yw cynnal a gwella gwerth Ystad y Goron a'r elw a geir ohoni gan roi sylw dyledus i ofynion rheoli da.

Cyn belled ag y mae'n gyson â'r Ddeddf, mae Ystad y Goron yn cydymffurfio ag egwyddorion a darpariaethau Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU 2018 ("y Cod"), fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.

Mae'r Bwrdd yn dirprwyo cyfrifoldeb dyddiol am reoli'r ystad i'r Prif Weithredwr ond mae'n cadw cyfrifoldeb dros:

- Gytuno ar amcanion, polisïau a strategaethau, a monitro perfformiad y rheolwyr gweithredol.
- Cytuno ar gyfeiriad strategol cyffredinol y busnes a'i osod i'w weithredu drwy'r Tîm Arweinyddiaeth Grŵp.
- Adolygu cynnydd cyffredinol a datblygiad hirdymor Ystad y Goron yng ngoleuni'r amgylcheddau gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol y mae'n gweithredu ynddynt.
- Rheoli a monitro cyflwr a pherfformiad ariannol Ystad y Goron (gan gynnwys cynlluniau buddsoddi ac ariannol), cymeradwyo amcanion Ystad y Goron a'i chynllun corfforaethol.
- Cymeradwyo gwariant a thrafodion mawr gan gynnwys, er enghraifft, caffaeliadau, gwarediadau a mentrau ar y cyd.
- Sicrhau bod Ystad y Goron yn dilyn polisïau cadarn a phriodol mewn perthynas â:
  - Rheoli risgiau
  - Iechyd a diogelwch
  - Archwilio mewnol ac allanol
  - Rheolaeth fewnol
  - Strategaeth fuddsoddi
  - Systemau gwybodaeth
  - Cynaliadwyedd
  - Cysylltiadau cyhoeddus a chyfathrebu
  - Cyfrifeg
  - Adnoddau dynol
  - Llywodraethu corfforaethol
- Dirprwyo cyfrifoldeb ac awdurdod clir i'r Cadeirydd, Pwyllgorau Gweithredol, y Prif Weithredwr, aelodau'r Bwrdd neu grwpiau o aelodau'r Bwrdd, Cyfarwyddwyr, Penaethiaid Adrannau ac eraill.
- Rhoi cymeradwyaeth neu gefnogaeth, yn ôl yr angen, i'r penodiadau/diswyddiadau uchaf a sicrhau bod trefniadau datblygu gyrfa, olyniaeth a thâl digonol yn bodoli.

### Awdurdodau dirprwyedig

Mae gan y Bwrdd amserlen ffurfiol o faterion sy'n cael eu penderfynu ganddo sy'n cynnwys:

- Cymeradwyo'r adroddiad a'r cyfrifon blynyddol.
- Cymeradwyo'r gyllideb flynyddol a'r cynllun strategol.
- Cytuno ar wariant cyfalaf neu warediadau allweddol.
- Cytuno ar y strategaethau Corfforaethol, Buddsoddi, Cyllid a Gweithrediadau.
- Rhoi neu amrywio lefelau awdurdod ar gyfer Pwyllgorau'r Bwrdd a'r Prif Weithredwr.

Mae rhai materion yn cael eu dirprwyo i bwyllgorau'r Bwrdd o dan gylch gwaith y cytunwyd arno. Mae'r rhain yn cynnwys Pwyllgorau Archwilio, Tâl, Enwebiadau a Chynaliadwyedd.

Mae materion eraill yn cael eu dirprwyo i'r Prif Weithredwr, Tîm Arweinyddiaeth y Grŵp a phwyllgorau rheoli eraill.

### Perfformiad y Bwrdd

Yn unol â'r Cod, mae perfformiad y Bwrdd a'r Pwyllgorau yn cael ei werthuso'n flynyddol trwy broses fewnol o hunanasesu ac asesu gan gymheiriaid. Mae hyn yn cael ei ategu gan werthusiad a hwylusir yn allanol bob tair blynedd.

### Recriwtio

Mae penodeion yn cael eu dewis i ddarparu cydbwysedd priodol o sgiliau a phrofiad ar y cyd, gyda chyn lleied o wrthdaro â phosibl â'u buddiannau allanol. Mae'r panel dethol yn gwneud argymhelliad i'r Trysorlys sy'n gyfrifol am gynnig penodiadau Comisiynydd Bwrdd Ystad y Goron i'r Prif Weinidog, sydd yn ei dro'n argymell penodiadau i'w Fawrhydi y Brenin.

# Y broses ddethol a sut i ymgeisio

## Y panel dethol a'r amserlen

Y panel dethol ar gyfer y penodiad hwn fydd:

**Ric Lewis**
Cadeirydd Ystad y Goron, Ystad y Goron

**David Fairbrother**
Swyddog Cyfrifon y Trysorlys, Trysorlys EF

**Louise Parry**
Dirprwy Gyfarwyddwr, Swyddfa Cymru

**Richard Selby**
Aelod Annibynnol o'r Panel

### Yr amserlen recriwtio

(Gallai'r dyddiadau newid)

| | |
|---|---|
| Dyddiad cau derbyn ceisiadau | 12 Tachwedd 2025, 12.15pm |
| Cyfarfodydd rhagarweiniol gyda chynrychiolwyr o Odgers Berndtson | Gydol Tachwedd 2025 |
| Cyfweliad gyda'r panel dethol | Dechrau Rhagfyr 2025 |
| Cyfweliad posibl gydag Ysgrifennydd Ariannol y Trysorlys* | I'w gadarnhau |

*Yn unol â'r Cod Llywodraethu ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus, efallai y bydd gofyn i ymgeiswyr a argymhellir fel rhai addas i'w penodi fynychu cyfweliad gydag Ysgrifennydd Ariannol y Trysorlys.

## Cyfle cyfartal

Rydym yn annog ceisiadau gan unigolion talentog o bob cefndir ac ar draws y Deyrnas Unedig gyfan. Mae byrddau cyrff cyhoeddus yn fwyaf effeithiol pan fyddant yn adlewyrchu amrywiaeth barn y gymdeithas y maent yn ei gwasanaethu.

Rydym yn casglu data am nodweddion a chefndiroedd ymgeiswyr, gan gynnwys gwybodaeth am gefndiroedd addysgol a phroffesiynol pobl, fel y gallwn sicrhau ein bod yn denu ystod eang o bobl i'r rolau hyn a bod ein prosesau dethol yn deg i bawb. Heb y wybodaeth hon, mae'n anodd gweld a yw ein gwaith allgymorth yn gweithio, a yw'r broses ymgeisio yn cael effaith annheg ar rai grwpiau ac a yw newidiadau'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol.

Pan fyddwch yn cyflwyno eich cais, mae Swyddfa'r Cabinet a'r adran(nau) llywodraeth sy'n rheoli eich cais yn casglu eich ymatebion. Defnyddir y data i gynhyrchu gwybodaeth reoli am amrywiaeth ymgeiswyr.

Gallwch ddewis "mae'n well gen i beidio â dweud" ar gyfer unrhyw gwestiwn nad ydych eisiau ei ateb.

**Ni fydd y wybodaeth a roddwch yn cael ei gweld gan y Panel Asesu Ymgynghorol sy'n adolygu ceisiadau yn ôl y meini prawf a hysbysebir ac yn cynnal cyfweliadau.**

## Cynllun Hyderus o ran Anabledd

Rydym yn aelod o gynllun Hyderus o ran Anabledd y Llywodraeth. Rydym ni, ynghyd â chyflogwyr eraill o'r un anian, yn defnyddio symbol y cynllun Hyderus o ran Anabledd i ddangos ein hymrwymiad i arfer da wrth gyflogi pobl ag anabledd. Mae'r cynllun yn helpu i recriwtio a chadw pobl anabl. Fel rhan o weithredu'r cynllun, rydym yn gwarantu cyfweliad i unrhyw un ag anabledd y mae ei gais yn bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y rôl, a nodir yn yr hysbyseb, ac sydd wedi gofyn i'w gais gael ei ystyried o dan y cynllun. Ni fydd nodi eich bod yn dymuno i'ch cais gael ei ystyried o dan y cynllun yn rhagfarnu eich cais mewn unrhyw ffordd.

Wrth 'meini prawf hanfodol', rydym yn golygu bod yn rhaid i chi ddarparu tystiolaeth sy'n dangos eich bod yn bodloni'r lefel o gymhwysedd sy'n ofynnol o dan bob un o'r meini prawf hanfodol, fel y nodir yn yr hysbyseb swydd. Pan fyddwch yn gwneud cais, byddwch yn cael cyfle i ddewis a hoffech i'ch cais gael ei ystyried o dan y cynllun hwn.

## Sut i Ymgeisio

Mae Odgers Berndtson wedi'i benodi i gynghori Ystad y Goron ar y recriwtio hwn. **Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 12.15pm dydd Mercher, 12 Tachwedd 2025.**

I wneud cais am y rôl hon, rhaid i bob ymgeisydd gwblhau'r ddau gam canlynol:

1. **Cyflwynwch eich datganiadau drwy wefan Penodiadau Cyhoeddus**
   Rhaid i ymgeiswyr greu neu fewngofnodi i gyfrif yn: https://apply-for-public-appointment.service.gov.uk/roles/9002
   Trwy'r porth hwn, gofynnir i chi lenwi:
   – **Ffurflen Gwybodaeth Cydraddoldeb**
   – **Ffurflen Buddiannau Allanol**

   Mae'r cam hwn yn orfodol. Ni fydd eich cais yn cael ei ystyried heb gwblhau'r datganiad hwn.

2. **Anfonwch eich CV a'ch datganiad ategol yn** uniongyrchol at Odgers Berndtson drwy un o'r opsiynau canlynol:
   – Ar-lein yn: www.odgers.com/94788
   – Drwy e-bost: OdgersWalesPractice@odgers.com
   – Drwy'r post: 5 Sgwâr Callaghan, Caerdydd, CF10 5BT

**Mae'n rhaid i'ch cais gynnwys:**

– Teitl y rôl wedi'i farcio'n glir yn llinell bwnc yr e-bost fel: **Comisiynydd Bwrdd YYG – Cymru**
– CV yn manylu ar eich cymwysterau, hanes cyflogaeth, sgiliau a phrofiad
– Llythyr eglurhaol yn amlinellu sut mae eich sgiliau'n bodloni gofynion y rôl
– Enwau o leiaf ddau ganolwr y gellir cysylltu â nhw yn ystod cam y rhestr fer
– Cadarnhad eich bod yn hapus i Odgers Berndtson neu Ystad y Goron gynnal unrhyw wiriadau cefndir angenrheidiol (e.e. gyrfa, credyd, cymwysterau) ar y cam priodol. Ni fydd unrhyw wiriadau'n cael eu cynnal heb rybudd ymlaen llaw.

Fel rhan o'r broses recriwtio, gellir gofyn i ymgeiswyr gynnal asesiad seicometrig arweinyddiaeth cyn cyfweliadau. Cynhelir gwiriadau diwydrwydd dyladwy, gan gynnwys adolygiad o wybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus fel cyfryngau cymdeithasol, wrth i ymgeiswyr symud ymlaen trwy'r broses benodi.

Ein nod yw prosesu pob cais cyn gynted â phosibl a thrin pob cais â chwrteisi. Os ydych chi'n teimlo nad yw eich cais wedi cael ei drin yn deg a'ch bod chi am wneud cwyn, dylech chi gysylltu ag OdgersWalesPractice@odgers.com yn y lle cyntaf. Os nad ydych chi'n fodlon â sut mae Odgers yn delio â'ch cwyn, cysylltwch â thîm penodiadau cyhoeddus HMT yn publicappointments-hmt@hmtreasury.gov.uk. Byddant yn cydnabod eich cwyn ar ôl ei derbyn ac yn ymateb o fewn 15 diwrnod gwaith.

## Hysbysiad Preifatrwydd

Gwahoddir ymgeiswyr i adolygu'r Hysbysiad Preifatrwydd Recriwtio Penodiadau Cyhoeddus, sydd ar gael ar wefan Penodiadau Cyhoeddus ac ar ddiwedd y broses datganiad amrywiaeth ar-lein.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y penodiad neu'r broses, neu os ydych yn ystyried y gallai fod gennych fuddiant a allai wrthdaro ag ef, mae croeso i chi gysylltu â ni trwy e-bost yn OdgersWalesPractice@odgers.com

Mae'r Ymgyrch yn cael ei rheoleiddio gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus ac felly, os nad ydych chi'n gwbl fodlon ag ymateb Ystad y Goron iddi, gallwch ei chyfeirio at Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus.

## Cadwch mewn cysylltiad

Gallwch gael y newyddion diweddaraf am Ystad y Goron drwy amrywiaeth o sianeli cyfathrebu:

Twitter/X **@TheCrownEstate**
LinkedIn **The Crown Estate**
Instagram **@thecrownestate**
**thecrownestate.co.uk**

**The Crown Estate**
1 St James's Market
London
SW1Y 4AH